# Cronfa Effaith Balchder Bro – Grantiau Bach
# Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Mae Cronfa Effaith Balchder Bro yn rhaglen ledled Prydain, a'i nod yw darparu buddsoddiad i adfer balchder bro, cefnogi cydlyniant cymunedol, a sbarduno gweithgarwch economaidd lleol trwy welliannau gweladwy, tymor byr, wedi'u harwain gan y gymuned.

Mae'r Grantiau Bach yn cyd-fynd â'r amcanion Cronfa Effaith Balchder Bro canlynol:

a. Mannau cymunedol: creu, ehangu, gwella neu adfer cyfleusterau cymunedol presennol a galluogi sefydliadau cymunedol i gymryd rheolaeth neu berchnogaeth o asedau lleol sy'n werthfawr ond sydd wedi'u tanddefnyddio.
b. Mannau cyhoeddus: gwella'r amgylchedd ffisegol mewn mannau cyhoeddus - mae enghreifftiau o fentrau'n cynnwys mannau gwyrdd neu sgwariau cyhoeddus newydd neu wedi'u gwella, gwella ardaloedd chwarae awyr agored, mannau chwaraeon a hamdden, gosod dodrefn stryd, celf gyhoeddus neu arwyddion.

**Nodau Grantiau Bach Cronfa Effaith Balchder Bro yw:**

- Cefnogi prosiectau cynaliadwy sy'n cael eu harwain yn lleol ac sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- Cefnogi prosiectau sy'n ceisio diogelu asedau lleol dan berchnogaeth/lesddaliad, er enghraifft, lleoliadau cymunedol, mannau gwyrdd a chlybiau chwaraeon lleol.
- Annog prosiectau a fydd yn dangos gwerth am arian ac yn cynnig ystod o wasanaethau cymunedol cynaliadwy.
- Cefnogi prosiectau sy'n ceisio lleihau eu hôl troed carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- Talu costau cyfalaf prosiectau trwy brynu peiriannau, offer, neu asedau eraill.
- Cefnogi gwaith cyfalaf a fyddai'n galluogi gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol pellach i gael eu darparu, a cheisio cynyddu potensial i greu incwm.
- Darparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fwy, a gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a grantiau cyfalaf sylweddol eraill.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Meini Prawf Cymhwysedd

- Dyfernir grantiau o'r gronfa hon i grwpiau sy'n ymwneud â phrosiectau a mentrau cymunedol a fydd o fudd i'r ardal leol.

- Caiff prosiectau eu hasesu yn ôl eu gallu i gyfrannu at gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Cronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU a blaenoriaethau cymunedol lleol a nodir.

- Dim ond prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn gallu cwblhau erbyn 28 Chwefror 2027 fydd yn cael eu hasesu ar gyfer dyfarnu'r grant.

- Rhaid i bob prosiect a ariennir gan grant bach y Gronfa Effaith Balchder Bro fodloni un neu fwy o'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen:

| | |
|---|---|
| PiPIF1 | Nifer y cyfleusterau ac eiddo sy'n cael eu creu neu eu gwella. |
| PiPIF2 | Faint o le masnachol sy'n cael ei greu neu ei wella. |
| PiPIF3 | Faint o le cymunedol, diwylliannol, chwaraeon neu dreftadaeth sy'n cael ei greu neu ei wella. |
| PiPIF4 | Faint o le gwyrdd neu las sy'n cael ei greu neu ei wella. |
| PiPIF5 | Faint o dir y cyhoedd sy'n cael ei greu neu ei wella. |
| PiPIF6 | Nifer yr ôl-osodiadau gwyrdd i adeiladau a/neu gyfleusterau nad ydynt yn eiddo preswyl. |

- Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid, mae'n rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus sicrhau'r canlynol:
  - Eu bod yn hunan-lywodraethu, nad ydynt yn dosbarthu elw, eu bod yn gweithredu er budd y gymuned/cyhoedd, a bod ganddynt gyfansoddiad/dogfen lywodraethu/rheolau priodol.
  - Ni all cyfanswm costau'r prosiect fod yn fwy na £25,000. Bydd unrhyw geisiadau ar gyfer prosiectau sy'n fwy na'r ffigwr hwn yn cael eu gwrthod.
  - Bod ganddynt lythyr o gefnogaeth wedi'i lofnodi gan eu Cynghorydd Sir lleol.
  - Bod ganddynt gyfrif banc gyda 2 lofnodwr o leiaf yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio ar gyfer y grant.
  - Eu bod yn dangos rheolaeth ariannol gadarn, yn enwedig o ran cymeradwyo a chofnodi gwariant.
  - Eu bod yn gallu darparu blwyddyn eu cyfrifon ariannol diweddaraf, wedi'u llofnodi i ddangos eu bod wedi cael eu harchwilio neu arolygu'n annibynnol

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

(yn ôl lefel incwm a gwariant) neu yn achos sefydliad sydd newydd ei ffurfio, rhagolwg o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Bod ganddynt bolisïau a rheoliadau effeithiol ar waith, ynghyd â'r awdurdod gofynnol i gyflawni'r prosiect arfaethedig, e.e. gweithdrefnau diogelu, trwyddedau, achrediad ac at, lle bo'n bosibl.
- Dangos tystiolaeth o gefnogaeth y gymuned.
- Derbyn telerau ac amodau'r cyllid hwn.
- Sicrhau bod yr Hysbysiad Cymorth Ariannol Lleiaf a'r Dystysgrif Derbyn yn cael eu llofnodi a'u dychwelyd at y Cyngor cyn gynted â phosibl.

## PWY SY'N GALLU YMGEISIO

- Grwpiau cymunedol gyda chyfansoddiad neu sefydliadau gwirfoddol
- Elusennau Cofrestredig
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau trydydd sector
- Mentrau Cymdeithasol

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys, cysylltwch â reach@bridgend.gov.uk a fydd yn gallu eich cynghori.

## FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO

Mae Grant Bach y Gronfa Effaith Balchder Bro yn cynnig **cyfalaf yn unig,** yr isafswm sydd ar gael yw **£1,000** a'r uchafswm yw **£10,000** (gan gynnwys TAW anadferadwy). **Ni all cyfanswm costau'r prosiect fod yn fwy na £25,000.**

| Cyfanswm Costau'r Prosiect | A oes angen arian cyfatebol | Uchafswm y grant |
|---|---|---|
| O £1,000 i £10,000 | Nac oes | £10,000 |
| O £10,001 i £25,000 | Oes | £10,000 |

Bydd ceisiadau Grant Bach Cronfa Effaith Balchder Bro yn cael eu hasesu gan banel gwerthuso grantiau; rhaid cwblhau pob ffurflen ac mae'n rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth berthnasol.

Rhaid cwblhau pob prosiect llwyddiannus erbyn **28 Chwefror 2027**.

## BETH Y GELLIR EI ARIANNU

Gall grant bach Cronfa Effaith Balchder Bro gefnogi prosiectau cyfalaf ar gyfer adferiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Gwaith adeiladu / gwelliannau ar raddfa fach gan gynnwys gwelliannau hygyrchedd cymedrol.

- Prynu offer cyfalaf, peiriannau neu asedau eraill.
- Gwaith cyfalaf i wella ardaloedd gwyrdd cymunedol.
- Syniadau prosiect arloesol sy'n gwasanaethu'r gymuned e.e. datrysiadau ynni adnewyddadwy, trechu tlodi tanwydd a'r newid yn yr hinsawdd.
- Prosiectau a fydd yn lleihau costau cynnal hirdymor y sefydliad cymunedol.
- Gellir cynnwys TAW anadferadwy yn yr hawliadau grant, ar yr amod nad yw eich sefydliad wedi cofrestru ar gyfer TAW. Os bydd yn sefydliad yn cofrestru ar gyfer TAW yn ystod amserlen y prosiect cyn yr hawliad terfynol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw'r hawl i roi'r gorau i ariannu'r elfen TAW.

**Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bydd ceisiadau'n cael eu gwerthuso fesul achos.**

## BETH NAD OES MODD EI ARIANNU?

Yn anffodus, **ni all** grant bach Cronfa Effaith Balchder Bro gefnogi'r costau a'r gweithgareddau canlynol:

- Unrhyw gostau a dynnwyd cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol
- Unrhyw gostau refeniw
- TAW adferadwy
- Ffioedd banc / cyllid ac ad-dalu benthyciadau
- Costau cyfreithiol o ganlyniad i ofyniad statudol
- Costau cynnal / refeniw cyffredinol neu barhaus (gan gynnwys rhent, trethi, yswiriant, cyflogau, llogi parhaus)
- Ffi codi arian
- Cerbydau
- Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol
- Ail-ariannu dyledion gwael o unrhyw fath, neu rwymedigaethau cwmni nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect
- Yswiriant
- Cymorth ariannol i drydydd parti
- Gwaith a wneir ar eiddo domestig, boed hynny'n adeilad newydd neu waith adfer neu estyniadau/ystafelloedd gardd/cabanau pren.
- Cynlluniau at ddefnydd grŵp cyfyngedig.
- Refeniw – gwariant / costau cynnal.
- Gwariant anghyfreithlon.
- Hybu crefydd.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

- Hybu gwleidyddiaeth.
- Prosiectau / cynlluniau sydd â'r nod i wneud elw.
- Amnewid cyfleusterau sy'n destun hawliad yswiriant.
- Dyletswyddau statudol.

## SUT I YMGEISIO

Cwblhewch a llofnodwch y ffurflen gais grant bach Cronfa Effaith Balchder Bro a'i hanfon gyda'r ddogfennaeth ganlynol:

- Dau ddyfynbris cymharol syn ymwneud â phob elfen o'r gwariant cymwys. Bydd y dyfynbris rhataf a ddarperir yn pennu swm y grant.
- Llythyr o gefnogaeth wedi'i lofnodi gan y Cynghorydd Sir lleol.
- Adroddiadau ychwanegol sy'n dangos angen y gymuned.
- Copi o'ch cytundeb prydles a llythyr caniatâd gan y Rhydd-ddeiliad (os yw'r adeilad neu'r tir yn lesddaliad).
- Copi o'ch cyfrifon blynyddol neu ddatganiad ariannol diweddaraf.
- Copïau o ddatganiadau banc ar gyfer y 3 mis diwethaf.
- Copi o'ch Yswiriant Indemniad Cyhoeddus.
- Tystiolaeth o arian cyfatebol a sicrhawyd at ddiben y prosiect yn unig.
- Os oes angen caniatâd cynllunio neu newid defnydd mewn perthynas ag eiddo / adeilad ar gyfer y prosiect, rhaid darparu tystiolaeth o gymeradwyaeth cyn y gellir cymeradwyo'r grant.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 5.00pm ddydd Gwener dydd Mawrth 31ain Mawrth 2026.**

Unwaith y derbynnir yr holl ddogfennaeth erbyn y dyddiad cau, bydd y cais llawn yn cael ei gyflwyno gerbron Panel Gwerthuso Grantiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont at Ogwr i'w adolygu. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei hysbysu o'r canlyniad erbyn 8 Mai 2026. Os na fydd y dyraniad cyllid llawn wedi cael ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod ymgeisio hwn, bydd rownd ymgeisio ychwanegol yn cael ei agor.

Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy gwblhau a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn a fydd yn cael ei chyhoeddi os bydd eich cais grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen gyda'ch prosiect nes y byddwch wedi dychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Pe na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo o fewn y cyfnod a nodwyd yn y llythyr cynnig, byddai'r grant yn dirymu'n awtomatig.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Rhaid cwblhau pob prosiect erbyn **28 Chwefror 2027** ac mae'n rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth, gan gynnwys taliadau, o fewn y cyfnod hwn.

**Ni ddylid gwneud unrhyw wariant cyn i'r grant gael ei gymeradwyo, gan nad oes modd dyfarnu'r grantiau'n ôl-weithredol. O dan amgylchiadau arferol, dim ond un cais am gyllid o dan grant bach y Gronfa Effaith Balchder Bro y byddwn yn ei gefnogi.**

## RHEOLI CYMORTHDALIADAU

O dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fenter sy'n rhoi mantais economaidd iddynt, gan olygu na fyddai cymorth cyfatebol wedi gallu cael ei dderbyn dan delerau masnachol. Gall fod ar ffurf grant, egwyl treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnyddio cyfleusterau o dan bris y farchnad, ymysg mathau eraill o gymorth.

Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau grant i bennu unrhyw oblygiadau Rheoli Cymorthdaliadau posibl. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni'n unol â rheolau rheoli cymorthdaliadau ac yn gweithio gyda'r cyngor i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y pennir ei bod yn ofynnol. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth y DU yma: https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Os pennir bod unrhyw gynnig yn gyfystyr â chymhorthdal, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'r ymyrraeth arfaethedig yn gyson ag egwyddorion rheoli cymhorthdal ac a oes unrhyw eithriadau neu opsiynau triniaeth eraill yn berthnasol.

Un eithriad cyffredinol y bydd y Cyngor yn ei ystyried yw dyfarniad Cymorth Ariannol Lleiaf. Mae Cymorth Ariannol Lleiaf yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel heb orfod cydymffurfio gyda'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoli cymhorthdal sylweddol a ragnodir gan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Ceir trothwy ariannol ar gyfer Cymorth Ariannol Lleiaf, felly ni all unrhyw dderbynnydd dderbyn mwy na £315,000 dros y cyfnod perthnasol. Mae'r cyfnod perthnasol yn gyfnod treigl o dair blynedd sy'n rhedeg o'r canlynol:

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

- Y rhan o’r flwyddyn ariannol gyfredol sydd wedi mynd heibio (h.y. o 1 Ebrill); a’r
- Ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Dylid ystyried pob un o’r canlynol wrth gyfrifo swm y Cymorth Ariannol Lleiaf a dderbyniwyd gan eich busnes yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a’r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol:

- Cymorth Ariannol Lleiaf arall
- Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus
- Cymorth a roddwyd o dan reoliadau cymorth gwladol de minimis yr UE cyn diwedd y cyfnod gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020 a
- Chymorthdaliadau a roddwyd ar ffurf symiau bach o gymorth ariannol o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu’r DU-UE a’r Cytundeb Cydweithredu cyn i Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ddod i rym.

Os nad ydych yn sicr sut y cafodd unrhyw gymorth ariannol blaenorol a ddyfarnwyd i chi ei ddyfarnu, cysylltwch â’r sefydliad a roddodd y cymorth.

## MANYLION CYSWLLT

**E-bost:** reach@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** http://www.bridgendreach.org.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

**Mae gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ddisgresiwn llwyr dros delerau, cymhwysedd a phenderfyniadau’n ymwneud â Grant Bach Cronfa Effaith Balchder Bro, ac mae’n cadw’r hawl i addasu’r meini prawf ar unrhyw adeg.**

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU